**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/MD/0659/15

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

14 Mai 2015

Annwyl David,

Ar 19 Mawrth, ymatebais i'ch llythyr dyddiedig 20 Chwefror ynghylch Ymchwiliad y Pwyllgor i'r Gweithlu Meddygon Teulu yng Nghymru.

Fel rhan o'r ymateb hwn, cytunais i ysgrifennu atoch eto yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran cynnig Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol i ymestyn isafswm yr amser hyfforddi ym mhob rhaglen ymarfer cyffredinol o dair i bedair blynedd, gydag o leiaf 24 mis mewn gofal sylfaenol.

Yn ystod trafodaethau y DU gyfan ynghylch y cynnig hwn, cyhoeddodd yr Athro Syr David Greenaway adroddiad yn deillio o'i adolygiad i addysg feddygol ôl-raddedig, sef Datblygu Hyfforddiant – Sicrhau Dyfodol Gofal Rhagorol i Gleifion.
Daw'r adolygiad hwn yng nghyd-destun newid yn anghenion cleifion ledled y DU a'r angen o ganlyniad i fynd i'r afael â salwch mwy cronig a chleifion â chyflyrau lluosog a chymhleth. Mae hyn o ganlyniad i ffyrdd afiach o fyw a phoblogaeth sy'n heneiddio.

Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion er mwyn sicrhau bod gan feddygon y sgiliau, y cymwyseddau a'r galluoedd priodol i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae hefyd yn canolbwyntio ar yr angen i daro cydbwysedd rhwng meddygon sy'n cael eu hyfforddi i ddarparu gofal cyffredinol a meddygon sy'n cael eu hyfforddi i ddarparu gofal mwy arbenigol. Mae cefndir a nodau'r adroddiad yn cyd-fynd â gofynion GIG Cymru y dylai'r gweithlu fod yn ddigon hyblyg i addasu i newid o safbwynt diogelwch cleifion, gwella parhaus ac urddas a pharch sydd wrth wraidd y gwasanaeth a ddarperir.

Cafodd yr adroddiad ei groesawu'n gyffredinol gan y Gweinidogion Iechyd ar draws y DU, ond cytunwyd y dylid gwneud rhagor o waith i ystyried sut gellir datblygu'r argymhellion yn yr adroddiad yn ymarferol. Cytunwyd y dylid ystyried y mater o flwyddyn ychwanegol o hyfforddi ar gyfer meddygon teulu fel rhan o waith ehangach Grŵp Llywio Datblygu Hyfforddiant y DU o ystyried mai'r cynnig yn Adroddiad Greenaway oedd ffocws ehangach ar hyfforddiant cyffredinol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Ymddengys i mi ei bod yn gwbl briodol bod unrhyw newidiadau a gynigir mewn perthynas â'r agenda addysg a hyfforddi yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'i gilydd i sicrhau bod y system yn gweithio yn ei chyfanrwydd, yn hytrach na cheisio gwneud newidiadau ar eu pen eu hunain.

Fe wyddoch ers fy ymateb dyddiedig 19 Mawrth fod yr *Adolygiad o Fuddsoddi mewn Addysg i Weithwyr Iechyd Proffesiynol*, dan arweiniad Mel Evans, wedi cael ei gyhoeddi a'i fod yn destun cyfnod o ymgynghori gyda rhanddeiliaid perthnasol. Mae'n rhoi trosolwg clir o'r materion sy'n effeithio ar ddyfodol y gweithlu meddygon teulu yng Nghymru. Yn y cyfamser, rydym yn gweithio ochr yn ochr â Deoniaeth Cymru ac eraill i weld lle byddai targedu cyfnodau hyfforddi a datblygu ychwanegol yn helpu'r sefyllfa bresennol.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services